

# YSGOL Y GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN, 4-12 AWST 2017

## Dydd Sadwrn, 5 Awst

2.00 yn Theatr y Maes, Theatr Ieuencid Theatr Fach Llangefni yn perfformio 'Y Cyfarwydd Anghyfarwydd' gan **Gareth Evans Jones**, myfyriwr PhD cyfredol.

4.00 yn y Babell Lân, Y Prif Lenor **Sonia Edwards**, cyn-fyfyriwr o Ysgol y Gymraeg: 'Awdur y Dydd'. Bydd sesiwn holi ac ateb ar Lwyfan y Llannerch am 5:00.

## Dydd Sul, 6 Awst

1.15 yn y Babell Lân, darlith gan **Yr Athro Gerwyn Williams**: 'Môn Mam Cynan?'

## Dydd Llun, 7 Awst

12.00 ym Mhabell y Cymdeithasau 1, **Samuel Jones**, myfyriwr PhD cyfredol, yn traddodi darlith Adran Glasurol, Cymdeithas Cyn-fyfyriwyr Prifysgol Cymru: 'Trwy Sbectol Cymru: Gyrfa Glasurol T. Hudon-Williams'.

12.00 yn Theatr Fach y Maes, **Dr William R. Lewis**, cyn-ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, yn cymryd rhan yn y rhaglen 'Cofio J.O. Roberts'.

1.15 yn y Babell Lân, bydd **Yr Athro Angharad Price** a **Gareth Evans-Jones** ymhlith y rhai a fydd yn cofio'r ddiweddar Sian Owen, cyn-fyfyriwraig Ysgol y Gymraeg: 'Darn o'r Haul'.

2.15 yn y Babell Lân, **Yr Athro Gerwyn Williams** ynghyd â Derec Llwyd Morgan, Geraint Percy Jones, Eifion Glyn, Meinir Pierce Jones, Gwennan Gibbard, Non Indeg Evans: 'A Bedwyr i Bawb Ydoedd' – rhaglen i gofio am y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones, cyn-bennaeth y Gymraeg ym Mangor.

4.00 yn y Babell Lân, **Mared Lewis**, myfyriwr ôl-radd cyfredol: 'Awdur y Dydd'. Bydd sesiwn holi ac ateb ar Lwyfan y Llannerch am 5:00.

## Dydd Mawrth, 8 Awst

10:30-11:30 ym Mhabell y Cymdeithasau, **Yr Athro Jason Walford Davies** a'r **Athro Jerry Hunter**: 'Dwy lenyddiaeth Cymru: A oes cwlwm perthyn?'

1.00 ym mhabell Prifysgol Bangor, **Dr Aled Llion Jones** yn cyflwyno sesiwn gyda Sabine Asmus: 'Anghofiwch yr Acenion...'

1.15 yn y Babell Lân, darlith gan **Yr Athro Jason Walford Davies**: 'Ehangu'r Darlun: R.S. Thomas, M.E. Eldridge a Chelf Fodern'.

2.00 ym mhabell y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, **Yr Athro Gerwyn Williams** yn cymryd rhan yng nghyfarfod cyflwyno Gwobr Gwyn Thomas, gwobr a sefydlwyd er cof am y diweddar Athro Gwyn Thomas, cyn-bennaeth y Gymraeg ym Mangor.

2.00 yn Theatr Fach y Maes, bydd **Llio Mai Hughes**, myfyriwr PhD cyfredol, ymhlith y cwmni a fydd yn cystadlu yn y Gystadleuaeth Drama Fer Agored.

5.45 yn y Babell Lân, **Gareth Evans Jones** yn cymryd rhan yn y sesiwn 'Slot Chwarterer i Chwech'.

8.00 yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern, drama **Dr Manon Wyn Williams**, *Hollti*, yn cael ei pherfformio gan Theatr Genedlaethol Cymru.

## Dydd Mercher, 9 Awst

10.45 yn y Babell Lân, **Dafydd Glyn Jones**, cyn-aelod o staff Ysgol y Gymraeg, yn traddodi'r ddarlith lenyddol, 'Dau Storiwr o Fôn'.

1.00 ar Lwyfan y Maes pan fydd amryw fyfyrwr presennol yn perfformio gyda **Côr JMJ** ac yn cystadlu yn ystod yr wythnos.

2.30 yn Llwyfan y Llannerch, **Dr Rhiannon Heledd Williams**, cyn-fyfyriwr PhD: 'Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad?'

4.15-4.50 yng Nghaffi'r Theatrau, **Dr Manon Wyn Williams** yn trafod ei drama, *Hollti*, a berfformir gan Theatr Genedlaethol Cymru rhwng 8 a 11 Awst yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern.

4.30 yn y Pafiliwn, **Yr Athro Gerwyn Williams** yn traddodi'r feirniadaeth yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith.

8.00 yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern, drama **Dr Manon Wyn Williams**, *Hollti*, yn cael ei pherfformio gan Theatr Genedlaethol Cymru.

## Dydd Iau, 10 Awst

1.15 yn y Babell Lân, darlith gan **Yr Athro Peredur Lynch**: 'Englynion y Brifwyl'.

2.00, yn Theatr y Maes, **Osian Wyn Owen** a **Gethin Morgan** - dau o israddedigion presennol Ysgol y Gymraeg - yn cyflwyno *Tair Ochr i'r Geiniog*, drama a ysgrifennwyd ac a gyfarwyddir gan **Gareth Evans-Jones**, Cystadleuaeth Drama Fer Agored.

2.00, ym mhabell Prifysgol Bangor, **Yr Athro Angharad Price** yn holi golygyddion *O'r Pedwar Gwynt*, Sioned Puw Rowlands ac Owen Martell, a hefyd **Yr Athro Peredur Lynch**, bardd *Caeth a Rhydd*, a **Ruth Richards**, myfyriwr PhD ac awdur *Pantywennol* a *Pobol i'w Hosgoi*: 'Pen blwydd hapus, *O'r Pedwar Gwynt*, yn flwydd oed!'

2.00 yn y Tŷ Gwerin, **Elis Dafydd** – myfyriwr PhD cyfredol – ac eraill yn cael ei holi gan Ifor ap Glyn am y gyfrol a gyd-olygodd gyda Marged Tudur, *Rhywbeth i'w Ddweud: 10 o Ganeuon Gwleidyddol 1979-2016*.

8.00 yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern, drama **Dr Manon Wyn Williams**, *Hollti*, yn cael ei pherfformio gan Theatr Genedlaethol Cymru.

## Dydd Gwener, 11 Awst

10.00 ym mhabell Prifysgol Bangor, **Yr Athro Gerwyn Williams** yn cymryd rhan mewn rhaglen i goffáu Hedd Wyn.

2.00 yn Theatr Fach y Maes, Theatr Bara Caws yn dathlu ei phen-blwydd yn 40 oed a lansio *Bara Caws – Dathlu'r Deugain* gan **Llŷr Titus**, myfyriwr PhD cyfredol.

4.30 yn y Pafiliwn, **Yr Athro Peredur Lynch** yn traddodi'r feirniadaeth yng nghystadleuaeth y Gadair.

8.00 yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern, drama **Dr Manon Wyn Williams**, *Hollti*, yn cael ei pherfformio gan Theatr Genedlaethol Cymru.

## Dydd Sadwrn, 12 Awst

10.45 yn y Babell Lên, **Yr Athro Peredur Lynch** yn cymryd rhan yn y rhaglen 'D. Tecwyn Lloyd – Rhai Agweddau'.

11.45 yn y Babell Lên, **Dr Manon Wyn Williams**: 'Stori Cyn Cinio!'

2.15-3.45 yn y Babell Lên, **Yr Athro Gerwyn Williams** yn cymryd rhan yn y sesiwn 'Cyfarfod y Prif Enillwyr'.

4.00 yn y Babell Lên, bydd y Prifardd **Guto Dafydd**, cyn-fyfyriwr o Ysgol y Gymraeg, a **Gruffudd Antur**, myfyriwr PhD cyfredol, ymhlith y rhai a fydd yn cymryd rhan yn '8 allan o 10 Bardd'.